



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL **Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru**

DYDDIAD **8 Mawrth 2019**

GAN **Vaughan Gething AC - y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol**

Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth hon i wella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru, rwyf yn falch o gyhoeddi cyllid ychwanegol o £2 filiwn, a fydd ar gael dros y tair blynedd nesaf, i wella gwasanaethau'r GIG i bobl ag anabledd dysgu.

Yn 2018, lanswyd rhaglen waith drawslywodraethol gynhwysfawr; "Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau". Cafodd y rhaglen ei llywio gan adolygiad eang a ymchwiliodd i sut y gellid cryfhau gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu. Gwnaeth yr adolygiad 24 o argymhellion ar gyfer gweithredu ar draws tai, iechyd, addysg, trafndiaeth a gofal cymdeithasol. Cafodd pob un o'r argymhellion hyn eu derbyn gan y cabinet ac mae gwaith yn mynd rhagddi yn nawr i'w darparu dros y tair blynedd nesaf.

Caiff y £2m a gyhoeddwyd heddiw ei ddefnyddio i sicrhau gwelliannau sy'n gysylltiedig â'r camau iechyd yn y rhaglen, dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys –

- Lleihau'r defnydd amhriodol o feddyginiaeth ac ataliaeth trwy gynyddu'r defnydd o ystod o ymyriadau'n sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol
- Gwella nifer y bobl sy'n manteisio ar yr archwiliadau iechyd blynyddol a gynigir gan feddygon teulu i bobl ag anabledd dysgu ac ansawdd yr archwiliadau hynny.
- Gwella gallu a chapasiti gofal aciwt yn yr ysbyty i wneud addasiadau rhesymol sy'n galluogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad i wasanaethau prif ffrwd
- Sicrhau bod pobl ag anghenion cymhleth yn cael mynediad amserol a rhwydd i wasanaethau arbenigol ym maes anableddau dysgu gan gynnwys trawma/argyfwng, yr ystod lawn o lety gan gynnwys darpariaeth ddiogel a mynediad y tu allan i oriau.
- Rhoi'r fframwaith nyrsio mewn ysgolion arbenigol ac ysgolion prif ffrwd ar waith - sef set o safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer nyrsio mewn ysgolion

Dylai'r gwelliannau hyn wneud gwahaniaeth o bwys i fywyd pobl, gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cydategu'r buddsoddiad o £100 miliwn sy'n cael ei roi trwy'r Gronfa Drawsnewid ac mae'n rhan o'r swm o £192.4 miliwn a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2019 – 2020 i ddarparu gwasanaethau cryf a chynaliadwy a bwrw ymlaen â'n gweledigaeth a amlinellwyd yn *Cymru Iachach*.